## Y GLYDERAU

Nid yw cefnen Y Glyderau yn cael ei dorri mewn gwirionedd gan unrhyw fwlch hawdd ei groesi. Ond, mae Llwybr yr Offeiriad yn croesi Bwlch y Brecan, llwybr a gymerwyd gan offeiriaid i gyrraedd Nant Peris (sef y Llanberis gwreiddiol) o Abergwyngregyn. Roedd Llwybr y Mwynwyr dros Fwlch Tryfan a heibio Glyder Fach yn caniatáu i ddynion o Ogwen gyrraedd mwyngloddiau copr Cwm Glaslyn a Llydaw ar Yr Wyddfa.

**Bwlch Blaen Cwm Idwal SH 642587**

Mae'r enw yn dynodi ei leoliad ar blaen 'diwedd, pen' Cwm Idwal. Un hen enw yn yr ardal oedd Trigyfylchau, er gall yr enw fod yn berthnasol fel enw gwreiddiol Clogwyn y Geifr hefyd. Mae Edward Lhuyd yn ei lyfr The Welsh Counties 1694 yn sôn am daith fotanegol 'ger neu un o'r Tregvylchau neu Treiglfylchau' ar ochr ogledd-orllewin y Glyder; ystyrid y Glyder Fawr a'r Glyder Fach yn un mynydd ar y pryd. Yn ei lyfr A tour through a Part of North Wales 1798 mae J Evans yn gosod yr enw yn gadarn rhwng Llyn Cwn a Llyn Idwal. Os enw ar adwyon sydd, yna tri 'tair' + cyf- 'rhagddodiad cryfhaol' + bylchau 'adwyon'. Wrth edrych i fyny'r cwm o Lyn Idwal, byddai wedi edrych fel pe bai tair ffordd i fyny i'r brig; y Twll Du yn y canol llinell ar lethr i fyny i'r chwith ac un arall yn anelu i fyny i'r dde.

**Bwlch Caseg Fraith SH 670584**

Caseg 'ceffyl benywaidd' + braith 'ysmotiog'. Roedd cryn dipyn o 'gredoau' ynglŷn â gwerth neu allu ceffyl dim ond drwy edrych ar eu lliw; er enghraifft, ni ystyriwyd yn dda prynu ceffyl â phedair troed wen.

**Bwlch Goleuni SH 697582**

Tybed os yw'r term goleuni 'yn olau, golau, goleuad' yn cyfeirio at y digwyddiad cyffredin o'r disgleirdeb a welir drwy'r bwlch o dan y cymylau. Bwlch Oleuni 1790 Llawysgrifau Penrhyn, mae Thomas Pennant yn cyfeirio at Bwlch Oleuni yn ei lyfr Tours of Wales.

**Bwlch Melynwyn SH 608611**

Melynwyn yw'r term am liw gwyn hufennog, lliw gwellt neu hyd yn oed melyn gwan; gall ei gysylltu â lliw glaswelltau mynydd yn y gaeaf. Bulchmellonen 1269 Litterie Wallie.

**Bwlch Tryfan SH 661589**

Y bwlch sy'n gwahanu Tryfan a'r Glyder Fach, mae i'w weld fel enw ar gyfres mapiau AO 6" 1888-1915. Mae'n anodd gwybod pa mor hen yw'r enw hwn.

**Bwlch y Brecan SH 625616**

Brecan 'lliain gwlanen fras', a gysylltir â'r Gwyddelig breac 'tartan, plaid'; fodd bynnag, yn ei Archeologia Britannica 1707 ysgrifennodd Edward Lhuyd: 'Bryccan, A blanket. [Brec in the language of the upland denotes Brith 'mottled']'. Roedd llwybr dros y bwlch wedi ei enwi ar ôl yr offeiriad(au) a fyddai'n gorfod ei groesi, wrth ddod o Abergwyngregyn, i gynnal gwasanaethau yn Nant Peris (y Llanberis gwreiddiol); mae rhywun yn dal i allu gweld Llwybr yr Offeiriad yn y dirwedd heddiw.

**Bwlch y Cywion SH 627602**

Fe all gysylltu'r gair cywion at un ifanc o unrhyw anifail, ond enwedig ebolion. Bwlch-y-cywion 1838 AO.

**Bwlch y Ddwy Glyder SH 650581**

Yn syml y cyfrwy rhwng y ddwy cludair, cluder 'pentwr'. Mae hwn yn enw cymharol fodern; oherwydd, o leiaf hyd at ddechrau'r 18fed ganrif. Ar yr AO 6" 1840-80 Bwlch Dwyglydion yw enw'r nant sy'n arwain i'r De, mae'r enw hwn dal yno ar fapiau 6" 1888-1915; fodd bynnag, ar yr un

map fe welir yr enw Bwlch y Ddwy-Glyder yn arwain i lawr y crib yr hyn sydd bellach yn dangos yr enw Y Gribin.

**Bwlch y Gwryd/Pen y Gwryd SH 660557**
Y tebygrwydd yw mai enw a godwyd o'r afon, Nant y Gwryd. Gweler Atodiad 1.

**Bwlch y Gwyddyl SH 654553**
Mae gwyddyl yn ffurf amrywiol y gair Gwyddel 'un o Iwerddon'; ond, rhaid ystyried mai ffurf lygredig ar gwyddwal 'perthi, anialwch dreiniog'; neu, gwyddel 'anialwch' sydd.

**Bwlch y Marchlyn SH 619615**
Wedi ei enwi ar ol y llyn Marchlyn; ond merchlyn oedd un hen enw llygredig ar y bwlch.